Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad (CA (3) 04-10)

Dyddiad: 4 Chwefror 2010
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 4 Chwefror 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Alun Davies AC a Rhodri Morgan AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA385 – Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 28 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 19 Chwefror 2010

CA386 – Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 28 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a / neu 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA384 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 14 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 18 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

Mae adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar y Rheoliadau hyn ynghlwm fel Atodiad 1.

Unrhyw faterion eraill

Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Stephen Laws CB, y Prif Gwnsler Seneddol, a Nigel Rendell, y Dirprwy Gwnsler Seneddol, ac ar wahân gan Thomas Glyn Watkin, Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru a Huw G. Davies, Uwch Gwnsler Deddfwriaethol Cymru.

Cytunodd Swyddfa Cwnsler Deddfwriaethol Cymru i ddarparu papur yn nodi'r meysydd cymhwysedd deddfwriaethol hynny sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ac nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn Atodlen 7 fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i gytuno ar yr Adroddiad ar y Mesur Seneddol drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr a thrafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer yr Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

4 Chwefror 2010

Atodiad 1

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(SLC(3)-04-10)

SLC384

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993"). Mae adran 24 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch newid rhestrau prisio a luniwyd o dan Bennod II (Rhestrau Prisio) o Ran I o Ddeddf 1992 a hynny gan swyddogion rhestru. Mae'r unig newid o sylwedd yn darparu os gwneir newid i'r rhestr i gywiro anghywirdeb ac mai'r anghywirdeb yw bod y rhestr wreiddiol yn dangos bod y band prisio yn rhy uchel, yna mae'r newid yn cael effaith o'r diweddaraf o'r canlynol sef y diwrnod y lluniwyd y rhestr neu'r diwrnod chwe blynedd ynghynt na'r diwrnod y cofnodir y newid yn y rhestr.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

(i) Mae Rheoliad 14 (8) y testun Cymraeg a Saesneg yn cyfeirio at "...an alteration which calls to have effect..." tra bod rheoliad 14 (7) yn cyfeirio at "...an alteration which falls to have effect...". Nid yw'n gwneud synnwyr i ddefnyddio "calls" yng nghyd-destun y rheoliadau hyn [Rh.S. 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

(ii) Mae rheoliad 14 (9) (d) y testun Cymraeg a Saesneg yn datgan "by virtue of property which was two or more dwellings for those purposes being treated for these purposes as one dwelling", tra bod y ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 14 (8) (d) Rheoliadau 1993 yn datgan "by virtue of property which was two or more dwellings for those purposes being treated for those purposes as one dwelling". Mae Rheoliad 14 (9) (d) yn cyflwyno dibenion newydd ("these purposes") heb ddatgan yr hyn y mae'r dibenion hyn ("these purposes") yn ei gyfaddawdu [Rh.S. 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod

y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

(iii) Mae Rheoliad 14 (6) (b) yn cyfeirio at "a valuation band which is higher than the band which should have been determined or shown applicable to it…" tra bod rheoliad 14 (7) (a) yn cyfeirio at "...a valuation band which is lower than the band which should have been determined or shown as applicable to it". Mae "Shown applicable" yn anghywir a "shown as applicable" yw'r ffurf neu eiriad cywir [RH.S. 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau ar gyfer cyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn cysylltiad â'r offeryn/offeryn drafft hwn ar yr adeg hon:

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

4 Chwefror 2010

Mae'n Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2010

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2010 yn cynnwys tri mân wall o natur deipograffyddol y mae angen eu cywiro. Felly fe gysylltir â Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus a'r Llyfrfa i drafod pa mor bosibl y byddai i gyhoeddi nodyn cywiro.

Ar y sail ei bod yn bosibl y bydd rhaid inni wneud offeryn diwygio i gywiro'r tri gwall teipograffyddol, fe'i llunnir cyn pen y tri mis nesaf.